# EUR2 08-04 w-min

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 11 Tachwedd 2004 |
| **Amser** | 9.00 tan 12.10 |
| **Lleoliad** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |

### Yn bresennol

| **Aelodau'r Pwyllgor** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Llafur: Delyn |
| Nick Bourne | Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr: Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

### Cyflwynwyr ECTARC

| | |
|---|---|
| Sharon Thomas | Rheolwr Cynghorol Gwybodaeth Ewropeaidd, Cyfarwyddwr, |
| Vanessa Baldry | Pennaeth Ieuenctid a Hyfforddiant |
| Phil Moran | Buddiolwr, Rhaglen Cymru |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| Peter Kellam | Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (fel Ysgrifenyddiaeth BIIPB y Cynulliad) |
| Gary Davies | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Ifona Deeley | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |

Rob Halford — Yr Is-adran Polisi Economaidd
Julian Revell — Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau

**Ysgrifenyddiaeth**

John Grimes — Clerc
Siân Wilkins — Clerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion

1. Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Rhodri Morgan AC, Glenys Kinnock ASE ac Eluned Morgan ASE.
2. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid i Nick Bourne, Mike German ac Ieuan Wyn Jones adael yn ystod y cyfarfod i fynd i agoriad Gardd Goffa Cymru yng Ngerddi'r Orsedd. Dywedodd hefyd ei bod yn bwriadu cael dwy funud o dawelwch am 11am i ddangos parch tuag at y rhai a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau ymuno â hi os oeddynt yn dymuno.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi

1. Cytunwyd bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref yn gywir. Croesawodd y Cadeirydd y crynodeb o'r camau i'w cymryd a dywedodd y byddai'n parhau â'r arfer hwnnw.

### Eitem 3: Adroddiad ar gynhadledd Corff Rhyngseneddol Prydain ac Iwerddon, 17-19 Hydref 2004
### Papur: EUR2 08-04(p1) – Corff Rhyngseneddol Prydain ac Iwerddon - y diweddaraf

1. Rhoddodd Mike German adroddiad ar gyfarfod llawn diweddar y Corff Rhyngseneddol gan dynnu sylw at ddau ddatblygiad penodol. Yn gyntaf, penderfynwyd neilltuo amser ym mhob cyfarfod llawn ar gyfer dadl wedi'i nodi gan un o'r cyrff datganoledig. Cynhaliwyd y ddadl gyntaf o'i bath yn y cyfarfod llawn hwn pan y bu Jane Hutt yn siarad am smygu mewn mannau cyhoeddus. Yn ail, penderfynwyd ffurfio is-bwyllgor i ddatblygu cynigion ar gyfer defnyddio arian Ewropeaidd ar draws ffiniau. Ef oedd cadeirydd yr Is-bwyllgor ac roedd John Griffiths AC yn aelod ohono.
2. Yn ystod y drafodaeth, cytunodd Mike German y câi copi o drafodaethau'r Corff Rhyngseneddol ar smygu mewn mannau cyhoeddus ei gyflwyno i bwyllgor y Cynulliad sy'n ystyried y mater hwn. [Gweithredu: Mike German].
3. Croesawodd yr Aelodau y datblygiadau hyn. Roeddynt yn tybio y byddai manteision sylweddol yn deillio ohonynt. Roeddynt yn mawr obeithio y byddai'r is-bwyllgorau yn parhau i gael eu cynnull.
4. Bu'r Cadeirydd yn crynhoi'r drafodaeth drwy ddweud bod y Pwyllgor yn croesawu'r ddau ddatblygiad a nodwyd yn yr adroddiad a'i fod yn falch o weld bod Cymru yn chwarae'i rhan

ynddynt o'r cychwyn cyntaf. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad rheolaidd ar sesiynau'r Corff Rhyngseneddol ac y dylai dderbyn agendâu'r cyfarfodydd ymlaen llaw. [Gweithredu: Mike German/Clerc].

**Eitem 4: Adroddiad y Prif Weinidog**
**Papur: EUR2 08-04(p2) – Adroddiad y Prif Weinidog**

1. Yn absenoldeb y Prif Weinidog, a oedd mewn gwasanaeth ar gyfer Diwrnod y Cadoediad, amlinellodd y swyddogion nifer o ymweliadau pwysig â Chymru gan nifer o Lysgenhadon tramor. Roeddynt yn gweithio'n rhagweithiol i wahodd diplomyddion i Gymru ac roedd yn hynod fanteisiol cyfarfod â Llysgenhadon newydd cyn iddynt ddechrau ar eu swyddi. Roedd yr ymweliadau hyn yn gyfle da i hybu Cymru ac i feithrin cysylltiadau a allai arwain at fuddsoddiad o'r tu allan a helpu â masnach dramor yn y dyfodol.
2. Rhoddodd y swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a gynhaliwyd ym mis Hydref. Roedd yn gyfarfod cyffredin ac roedd llawer o'r drafodaeth yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Ar hyn o bryd, roedd Cyngor Ewrop yn methu â chytuno ar hyn gan fod safbwynt y DU a Ffrainc yn hollol groes i'w gilydd o ran y cynigion ar gyfer ‘eithrio’ unigol. Cafwyd trafodaeth hefyd ar y Papur Gwyn ar Lywodraethu sy'n ceisio ysgafnhau'r baich rheoleiddio. Cyfeiriodd y swyddogion at ymweliad diweddar y Prif Weinidog ag Emilia Romagna. Cynhaliwyd yr ymweliad ar wahoddiad Llywydd Emilia Romagna a llwyddwyd i gadarnhau'r berthynas rhwng y rhanbarth a Chymru, perthynas a oedd eisoes yn bodoli ar lefel swyddogion. Roedd yn bwysig bod Cymru yn cynnal y cysylltiadau allweddol hyn â llywodraethau rhanbarthol ym mhob rhan o Ewrop.
3. Cydnabu'r Aelodau y berthynas rhwng Cymru a rhanbarthau yn 'y pum aelod-wladwriaeth fawr', sef Llydaw (Ffrainc), Silesia (Gwlad Pwyl), Baden-Württemberg (yr Almaen), Catalunya (Sbaen) ac Emilia Romagna (yr Eidal), ac roeddynt yn meddwl tybed a fyddai gwerth dod â'r rhanbarthau hyn ynghyd er mwyn cynyddu eu pwer lobïo. Dywedodd y swyddogion y byddai modd dod â'r rhanbarthau hyn ynghyd ond ar hyn o bryd roeddynt yn defnyddio dull 'dewis a dethol' wrth ffurfio cynghreiriau â rhanbarthau sydd â'r un diddordebau. Roedd y rhanbarthau hyn hefyd wedi ffurfio'u cynghreiriau eu hunain â rhannau eraill o'r UE a gallai'r rhain fod yn fanteisiol hefyd.
4. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn debygol y câi mater y Gyfarwyddeb Amser Gwaith ei ddatrys yn fuan. Dywedodd y swyddogion nad oedd hyn yn debygol oherwydd yr anghytuno ar y mater ar hyn o bryd. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Pwyllgor gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. [Gweithredu: Prif Weinidog.]
5. Croesawodd yr Aelodau ymweliadau'r Llysgenhadon tramor â Chymru, ynghyd ag ymweliadau tramor Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad. Er hyn, roeddynt yn pryderu nad oedd y Swyddfa Gartref yn gwirioneddol ddeall y cysylltiadau gwleidyddol a diwylliannol yr oedd Cymru wedi'u meithrin â gweddill y byd a chyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau lle nad oedd ymwelwyr â digwyddiadau i hyrwyddo Cymru yn cael caniatâd i ddod i'r DU. Dywedodd y swyddogion mai mater i'r Swyddfa Gartref oedd hwn. Er na allent fynd i'r afael ag achosion unigol, byddent yn ystyried cydweithio â threfnwyr digwyddiadau, megis yr Eisteddfod Gydwladol, i sicrhau bod problemau posibl yn cael eu nodi ymlaen llaw ac i weld a fyddai modd ymdrin â nhw cyn iddynt godi.

6. O ran Llywyddiaeth y DU, cadarnhaodd y swyddogion bod Cymru yn cyfrannu llawer ar lefel swyddogion a'u bod yn mawr obeithio y byddai nifer o ddigwyddiadau pwysig yn cael eu cynnal yng Nghymru. Byddai busnesau Cymru wrth reswm yn elwa ar hyn.
7. Dywedodd yr Aelodau y byddent yn croesawu rhagor o adroddiadau ar rai o'r ymweliadau a'r cyfarfodydd y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. Cytunodd y swyddogion i ddarparu rhagor o fanylion am ymweliad y Prif Weinidog ag Emilia Romagna. Dywedodd y swyddogion hefyd y byddent yn fodlon ymdrin â cheisiadau unigol gan Aelodau am adroddiadau mwy manwl. [Gweithredu: Prif Weinidog]
8. O ran rôl y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar Bwyllgor Llywio'r NRG4SD, sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy, cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd y Gweinidog i'r Pwyllgor i roi adroddiad ar y Cynulliad Cyffredinol Cyntaf a gynhaliwyd yn Sumatra. [Gweithredu: y Clerc]
9. Cyfeiriwyd at Bwyllgor Paratoi Cymru ar gyfer yr Ewro (WEPC) sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau hyn i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. [Gweithredu: Cadeirydd/Clerc]

**Eitem 5: Fframwaith Strategol Cysylltiadau Allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Papur: EUR2 08-04 (p3) – Wales, A World Nation – Fframwaith Strategol**

1. Amlinellodd y swyddogion rannau allweddol y papur a oedd yn nodi'r fframwaith y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddefnyddio i ddatblygu ei gweithgareddau rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth o Gymru ymhob rhan o'r byd. Croesawyd sylwadau'r Aelodau ar y drafft.
2. Nid oedd yr Aelodau yn glir ynghylch statws y papur a dywedwyd bod yr arddull yn gymysglyd. Dywedwyd nad oedd yn glir pwy oedd y gynulleidfa na beth fyddai diben yr adroddiad pan fyddai wedi'i gwblhau. Os bwriedir i'r ddogfen fod yn berthnasol i gynulleidfa ehangach, dylai fod yn fwy cynnil. O roi mwy o ystyriaeth i'r gynulleidfa, dylai ddylanwadu ar yr arddull a'r iaith.
3. Wrth drafod, tynnodd yr Aelodau sylw at nifer o feysydd yr oedd angen eu diffinio neu eu hegluro ymhellach:

- Dylid rhoi mwy o bwys ar gydbwysedd y rhywiau yn y Cynulliad. Roedd y Cynulliad yn unigryw yn hyn o beth a dywedodd yr Aelodau fod pobl o dramor yn ymweld yn gyson a bod ganddynt ddiddordeb yn y maes arbennig hwn. Dywedodd y swyddogion eu bod yn cyfeirio at y ffaith hon wrth hyrwyddo Cymru ond byddai modd ei chynnwys yn yr adroddiad hefyd.
- Dylid gwneud mwy i gynnwys y sector preifat. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif ynghylch defnyddio dull Team Wales, dylai'r sector preifat chwarae mwy o ran. Mae gan nifer o gwmnïau o Gymru gysylltiadau cryf dramor a dylai'r rhain fod yn ganolbwynt i unrhyw strategaeth i hyrwyddo Cymru.
- Dylid cryfhau'r cyfeiriad yn y papur at rôl Diwylliant o ran hyrwyddo Cymru dramor.
- Pan y cyfeirir yn yr adroddiad at bartneriaid, dylid nodi bod gan Aelodau unigol o'r Cynulliad rôl i'w chwarae yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Byddai'n ddefnyddiol rhoi rhestr o'r Is-genhadon Anrhydeddus yng Nghymru fel atodiad i'r

adroddiad ac egluro rhai o'r acronymau neu roi rhestr o dermau. Cytunodd y swyddogion i roi rhestr o'r Is-genhadon Anrhydeddus i'r Aelodau. [Gweithredu: Prif Weinidog]

- Roedd yn bwysig amlinellu'r rôl y mae'r gymdeithas sifil yn ei chwarae o ran hyrwyddo Cymru. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi cynnal trafodaethau â Chymdeithas Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Tanlinellwyd pwysigrwydd Diaspora ac Alumni Cymru a chytunwyd bod hwn yn adnodd nad ydym wedi manteisio ddigon arno hyd yma.
- Dylid cynnwys cyfeiriad cryfach at y berthynas rhwng Cymru a chyrff y DU sy'n hyrwyddo'r DU dramor.

4. Roedd rhai Aelodau yn pryderu y byddai'r camau i ddod â'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn rhan o'r Cynulliad yn effeithio'n negyddol ar 'y rhagoriaethau unigryw' yr oedd Cyrff unigol yn eu defnyddio i farchnata, megis ymgyrch Bwrdd Croeso Cymru – 'Mawredd Mawr'. Roedd perygl y byddai'r negeseuon unigol yn wannach. Roedd y swyddogion o'r farn y byddai dod â'r Awdurdod Datblygu a'r Bwrdd Croeso yn rhan o'r Cynulliad yn ei gwneud yn haws i reoli dull mwy corfforaethol o hyrwyddo Cymru dramor. Dywedodd un Aelod fod cwmnïau a sefydliadau yn lobïo'r cyrff hyn yn gyson i geisio hyrwyddo eu cynnyrch ymhellach ac oherwydd bod gan y Cyrff Cyhoeddus annibyniaeth roedd modd iddynt benderfynu gan ddefnyddio dull busnes 'wynebgaled'. Roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn bwysig iawn. Dywedodd y swyddogion fod sefyllfa debyg wedi codi pan grëwyd MasnachCymru Rhyngwladol ychydig flynyddoedd yn ôl fel rhan o Lywodraeth y Cynulliad. Roedd record MasnachCymru Rhyngwladol yn un i'w hedmygu ac roedd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau cyson ar sail blaenoriaethau ac adnoddau.
5. Roedd yr Aelodau am wybod sut y câi'r ddogfen ei datblygu. Cytunwyd y dylai pob Aelod fod yn rhan o'r gwaith o'i datblygu. Dywedodd y swyddogion eu bod yn croesawu sylwadau'r Aelodau ar y ddogfen a chytunwyd i ofyn i'r Prif Weinidog ystyried cynnal dadl mewn Cyfarfod Llawn ar y fersiwn derfynol. Gofynnodd y Cadeirydd am i bapur diwygiedig ddychwelyd gerbron y Pwyllgor ar adeg briodol. [Gweithredu: Prif Weinidog]

**Eitem 6: Goblygiadau mapio NUTS 2 a 3**
**Papur: EUR2 08-04(p4) - Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cymorth Rhanbarthol: Senarios Map Amgen**

1. Cyflwynodd y swyddogion y dadansoddiad a amlinellwyd yn y papur ac eglurwyd y ffordd y lluniwyd y gwahanol fapiau. Nodwyd eu bod yn seiliedig ar y ffigurau GDP diweddaraf ond gan mai ffigurau 2001 yw'r rhain, byddent yn newid cyn penderfynu'n derfynol. Nodwyd y gallai fod yn ofynnol eu newid ddwywaith pan fyddai ffigurau 2002 a 2003 ar gael.
2. Croesawodd yr Aelodau y dadansoddiad defnyddiol. Dywedwyd bod lefel y cymorth a fyddai ar gael ym mhob categori ardal yn fater allweddol, ynghyd â chwmpas yr Ardal a Gynorthwyir.
3. O ran yr amserlen, dywedodd y swyddogion fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi bwriadu cyfarfod â'r holl Aelod-wladwriaethau ym mis Medi ond bod y cyfarfod hwnnw wedi'i ohirio er mwyn rhoi cyfle i drafod pryderon yr Aelod-wladwriaethau unigol ynghylch cynigion y Comisiwn. Tybir na chynhelir y cyfarfod hwn yn awr tan ddechrau 2005. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ailystyried y mater ar ôl y cyfarfod hwnnw. [Gweithredu: Prif Weinidog]

4. Nododd yr Aelodau mai'r Comisiwn Ewropeaidd fyddai'n penderfynu ar ddynodi map yr ardal a gynorthwyir, ac nid Cyngor y Gweinidogion. Byddai'r map newydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2007 ac yn para tan 2013. Dywedodd y swyddogion bod disgwyl i'r materion gael eu datrys ac i'r penderfyniad gael ei wneud er mwyn sicrhau bod y map yn ei le erbyn y dyddiad cychwyn.

**Eitem 7: Papur ar brosesau deddfwriaeth yr UE/ y diweddaraf**
**Papur: EUR2 08-04 (p5) - Gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad o ran craffu ar ddeddfwriaeth yr UE**

1. Croesawodd yr Aelodau'r cynigion ar gyfer dull diwygiedig o ymdrin â deddfwriaeth yr UE a thybiwyd ei bod yn bwysig i'r pwyllgorau pwnc lynu wrth y cynigion. Cytunwyd y dylai Panel y Cadeiryddion bwyso a mesur y cynigion hyn yn awr.

**Eitem 8: Cynigion Ewropeaidd a adneuwyd yn Senedd y DU**
**Papur:EUR2 08-04(p6) – Cynigion Ewropeaidd a adneuwyd yn senedd y DU**
**EUR2 08-04(p9) – Gwybodaeth ychwanegol am ddogfennau'r UE a adneuwyd. Gofynnwyd amdani yn y cyfarfod ar 14 Hydref 2004.**

1. Ni nododd yr Aelodau unrhyw faterion penodol i'w hystyried ymhellach, ond gan fod nifer o'r Aelodau wedi gadael y cyfarfod, cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon e-bost atynt i ofyn am awgrymiadau y tu allan i'r cyfarfod. [Gweithredu: Clerc]
2. Cyfeiriwyd at gyfarwyddeb ddiweddar ar wasanaethau yr oedd y Gymuned Ewropeaidd yn cynnig ei defnyddio i agor y farchnad ar gyfer gwasanaethau fferyllol. Cytunwyd i ystyried y mater hwn ymhellach i weld a oedd angen i'r Pwyllgor gymryd unrhyw gamau. Cytunodd y swyddogion i chwilio am fwy o wybodaeth ar hyn. [Gweithredu: Swyddogion EEAD/Clerc.]

**Eitem 9: Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddi a Chydweithredu Rhanbarthol (ECTARC)**
**Papur: EUR2 08-04 (p7) – Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddi a Chydweithredu Rhanbarthol**

1. Amlinellodd Sharon Thomas hanes sefydlu ECTARC a'i phrif lwyddiannau. Pwysleisiodd ei fod yn sefydliad hyblyg nad yw’n fiwrocrataidd sydd â record hir o ran datblygu prosiectau addysg a hyfforddiant Ewropeaidd llwyddiannus. Roedd modd i'r Ganolfan ymateb yn gyflym i fentrau newydd oherwydd ei bod yn hyblyg. Nododd yr heriau y mae'n dal i'w hwynebu o ran ariannu, yr angen am gydweithio cadarn a'r manteision i unigolion o fynd ar raglenni o'r fath.
2. Rhan bwysig o waith ECTARC yw Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Ewropeaidd Cymru. Eglurodd Vanessa Baldry fod hwn yn gontract 2 flynedd â'r Cynulliad i helpu Colegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach i gael mynediad at raglenni addysg a hyfforddiant yr UE. O dan y contract, mae hefyd yn briffio ac yn cynghori'r Cynulliad ar faterion perthnasol. Tynnodd sylw at y prosiectau a'r rhaglenni penodol y mae ECTARC ynghlwm â nhw.
3. Yn eu plith yr oedd rhaglen Leonardo da Vinci sy'n darparu hyfforddiant galwedigaethol ac

ieithyddol dramor. Ar hyn o bryd, mae ECTARC yn anfon 100 o fyfyrwyr y flwyddyn i Ewrop o dan y rhaglen hon. Maent yn meithrin eu sgiliau ieithyddol, yn profi diwylliant gwahanol, yn gwella eu siawns o gael swydd ac yn dysgu am ddulliau newydd o weithio. Roedd Phil Moran wedi elwa ar y rhaglen a dywedodd wrth y Pwyllgor am ei brofiad ac am y manteision iddo ef yn sgil gweithio yn yr Almaen. Roedd wedi elwa ar y cyfle i rwydweithio ac roedd yn mawr obeithio defnyddio'r cysylltiadau hyn i ehangu ei fusnes gwneud ffilmiau. Wrth reswm, roedd hefyd wedi gwella ei sgiliau ieithyddol.

4. Wrth drafod, gwnaeth yr Aelodau longyfarch ECTARC ar ei gwaith. Roeddynt yn synnu nad oedd mwy o alw i gael bod yn rhan o raglen Leonardo, ond dywedodd ECTARC mai un o'r prif rwystrau yng Nghymru oedd y ffaith nad oes gan bobl y sgiliau ieithyddol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen. Gofynnodd yr Aelodau a oedd angen marchnata'n fwy penodol a gofynnwyd pa mor hawdd oedd cael mynediad at y cynllun. Dywedodd ECTARC ei bod wedi gwneud ymdrech fawr i farchnata'r rhaglen. Yn ddiweddar roedd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi ymweld ag ECTARC i drafod y posibilrwydd o ddarparu'r rhaglen fel modiwl mewn cyrsiau Addysg Bellach. Roedd hwn yn gyfle delfrydol i sicrhau bod mwy o bobl yn elwa ar y cynllun. Dywedwyd bod myfyrwyr o bob rhan o Gymru yn mynd ar y rhaglen a chytunwyd i roi mwy o fanylion i'r Aelodau am y nifer sy'n manteisio arni, gan gynnwys o ba ardaloedd y maent yn dod. [Gweithredu: Clerc/ECTARC]
5. Cyfeiriodd un Aelod at y ffaith nad yw ELWa yn achredu’r Ganolfan. Ar wahân i'r anawsterau amlwg o ran cyllid, roedd ECTARC yn credu ei bod wedi troi'r dwr i'w melin ei hun oherwydd bod hyn yn caniatáu iddi fod yn greadigol ac ymateb i ofynion y cwsmer.

### Eitem 10: Adroddiadau gan aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau, ASE o Gymru a Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru (12.00 - 12.10)

1. Nid oedd unrhyw fater i'w adrodd o dan yr eitem hon.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2004**